***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2009 No. 783

# Rheoliadau Galluedd Meddyliol (Amddifadu o Ryddid: Asesiadau, Awdurdodiadau Safonol ac Anghydfodau ynghylch Preswyliaeth) (Cymru) 2009

## RHAN 3

Dethol Aseswyr

**Dethol aseswyr — cyffredinol**

**7.**—(1) Dim ond os yw'r canlynol yn wir y caiff corff goruchwylio ddethol person i gynnal asesiad mewn unrhyw achos unigol—

(a) nad oes gan y person fuddiant ariannol yn y gwaith o ofalu am y person perthnasol;

(b) nad yw'r person yn berthynas i'r person perthnasol; ac

(c) nad yw'r person yn berthynas i berson sydd â buddiant ariannol yn y gwaith o ofalu am y person perthnasol.

(2) At ddibenion y rheoliad hwn ystyr "perthynas" ("*relative*") yw:

(a) tad, mam, llystad, llysfam, mab, merch, nain (mam-gu), taid (tad-cu), ŵyr neu wyres y person hwnnw, neu o briod, cyn briod, partner sifil neu gyn bartner sifil y person hwnnw; neu

(b) brawd, chwaer, ewythr, modryb, nith, nai, neu gefnder cyfan (p'un ai o waed cyfan neu hanner gwaed neu drwy briodas neu bartneriaeth sifil) y person hwnnw neu briod, cyn briod, partner sifil neu gyn bartner sifil y person hwnnw.

(3) At ddibenion y rheoliad hwn—

(a) mae "priod" ("*spouse*") neu "partner sifil" ("*civil partner*") yn cynnwys person nad yw'n briod â neu mewn partneriaeth sifil â'r person hwnnw ond sy'n byw gyda'r person hwnnw fel petai felly;

(b) mae gan berson fuddiant ariannol mewn cartref gofal neu ysbyty annibynnol os yw'r person hwnnw yn bartner, yn gyfarwyddwr, yn ddeiliaid swydd arall neu'n gyfranddaliwr sylweddol yn y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol sydd wedi gwneud y cais am awdurdodiad safonol;

(c) ystyr "cyfranddaliwr sylweddol" ("*major shareholder*") yw—

(i) unrhyw berson sy'n dal y ddegfed ran neu fwy o'r cyfrannau a ddyroddwyd yn y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol, os yw'r cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol yn gwmni cyfyngedig trwy gyfrannau, a

(ii) ym mhob achos arall, unrhyw berchen neu berchnogion ar y cartref gofal neu'r ysbyty annibynnol.

**Dethol aseswyr lles pennaf**

**8.** Dim ond person nad yw'n ymwneud â gofal neu driniaeth, nac yn ymwneud â phenderfyniadau ynghylch gofal neu driniaeth, y person perthnasol y caiff corff goruchwylio ei ddethol i gynnal asesiad lles pennaf.